

**2018 Rhif (Cy.)**

**2018 No. (W.)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Ffin Cymru/Lloegr) a Chefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Ewlo i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Gwahardd Cerbydau) 2018

The A55 Trunk Road (Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd to the Wales/England Border) and The A494/A550 Trunk Road (Ewloe Interchange to the Wales/England Border, Flintshire) (Temporary Speed Restrictions & Prohibition of Vehicles) Order 2018

*Gwnaed* 28 Mawrth 2018

*Made* 28 March 2018

*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2018

*Coming into force* 1 April 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor a Chefnffordd yr A494/A550 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 Chester to Bangor Trunk Road and the A494/A550 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the roads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Ffin Cymru/Lloegr) a Chefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Ewlo i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Gwahardd Cerbydau) 2018 a daw i rym ar 1 Ebrill 2018.

1. The title of this Order is The A55 Trunk Road (Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd to the Wales/England Border) and The A494/A550 Trunk Road (Ewloe Interchange to the Wales/England Border, Flintshire) (Temporary Speed Restrictions & Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 1 April 2018.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weindogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I.1999/672, and section 162 of, and paragraph 30(1) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now conferred upon the Welsh Ministers in relation to Wales.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y cefnffyrdd” (“*the trunk roads*”) yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor a Chefnffordd yr A494/A550 Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw;

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
  - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
  - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 1 Ebrill 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 50 mya ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 40 mya ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 30 mya ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

2.—(1) In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used by the emergency services; and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
  - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
  - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the A55 Chester to Bangor Trunk Road and the A494/A550 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 1 April 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

### Restrictions and Prohibition

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to be driven at a speed exceeding 50 mph on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule.

4. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to be driven at a speed exceeding 40 mph on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule.

5. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to be driven at a speed exceeding 30 mph on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule.

6. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule.

## Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

## Cymhwyso

8.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

## Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

28 Mawrth 2018

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn o brif gerbyttfordd a ffyrdd ymuno ac ymadael cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd i ffin Cymru/Lloegr i'r dwyrain o Gyffordd 36a (Brychdyn), Sir y Fflint.

Y darn o brif gerbyttfordd a ffyrdd ymuno ac ymadael cefnffordd yr A494/A550 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 34 yr A55 (Cyfnewidfa Ewlo) i ffin Cymru/Lloegr i'r gogledd-ddwyrain o Bont Afon Dyfrdwy, Queensferry, Sir y Fflint.

## Suspensions

7. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant lengths of the trunk roads specified in the Schedule are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3, 4 and 5 are in operation.

## Application

8.—(1) The restrictions and prohibition in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

## Duration of this Order

9. The maximum duration for this Order is 12 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

28 March 2018

*Nina Ley*

Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

## SCHEDULE

The length of the main carriageway and slip roads of the A55 trunk road that extends from a point 800 metres west of the centre-point of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Gwynedd to the Wales/England border, east of Junction 36a (Broughton), Flintshire.

The length of the main carriageway and slip roads of the A494/A550 trunk road that extends from the centre-point of the A55 Junction 34 (Ewloe Interchange) to the Wales/England border, north-east of the River Dee Bridge, Queensferry, Flintshire.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55  
(CYFFORDD 11 (CYFNEWIDFA LLYS Y  
GWYNT), BANGOR, GWYNEDD I FFIN  
CYMRU/LLOEGR) A CHEFNFFORDD YR  
A494/A550 (CYFNEWIDFA EWLO I FFIN  
CYMRU/LLOEGR, SIR Y FFLINT)  
(CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A  
GWAHARDD CERBYDAU) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A55 a'r A494/A550, neu gerllaw iddynt, rhwng Cyfnewidfa Llys y Gwynt, Bangor, Gwynedd a Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. Gosod terfyn cyflymder 50 mya, 40 mya neu 30 mya ar y darnau o gefnffyrdd yr A55 a'r A494/A550 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.
- ii. Gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darnau o'r A55 a'r A494/A550 a bennir yn yr Atodlen. Mae'r ddarpariaeth hon wedi ei chynnwys rhag ofn y bydd digwyddiadau nad oedd modd eu rhag-weld. Pe bai amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau'r gwaharddiadau hyn, byddai hyn yn digwydd, pryd bynnag y byddai'n bosibl, yn ystod oriau allfrig yn ystod y nos er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr y ffordd. Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw yn dangos y cyfnodau pan fydd y ffordd ar gau a dim ond am gyfnodau byr y bydd hyn yn para, fel y bo'n ofynnol. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2018 ac yn weithredol yn ysbeidiol am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf. Bydd Hysbysiadau yn cael eu harddangos cyn i'r gwaith ddechrau a bydd y dyddiadau a'r amseroedd yn amrywio o safle i safle ar hyd y darnau hynny o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn yr Atodlen.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 11 (LLYS  
Y GWYNT INTERCHANGE), BANGOR,  
GWYNEDD TO THE WALES/ENGLAND  
BORDER) AND THE A494/A550 TRUNK ROAD  
(EWLOE INTERCHANGE TO THE  
WALES/ENGLAND BORDER, FLINTSHIRE)  
(TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS &  
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 and A494/A550 trunk roads between Llys y Gwynt Interchange, Bangor, Gwynedd and the Wales/England Border, Flintshire.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. Impose a 50 mph, 40 mph or 30 mph speed limit on the lengths of the A55 and A494/A550 trunk roads specified in the Schedule to this Notice.
- ii. Prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A55 and A494/A550 specified in the Schedule. This provision is included as a contingency against unforeseen events. Should exceptional circumstances warrant these prohibitions this would, wherever possible, be during off peak night time hours so that minimum disruption is caused. Any such closures will be indicated by advance traffic signs and will only be for short periods of time, as required. No diversionary routes are necessary.

The restrictions and prohibition, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 00:01 hours on 1 April 2018 and operate intermittently for a maximum duration of 12 months. Notices will be displayed before the start of works and dates and times will vary from site to site along the overall lengths of the trunk roads described in the Schedule.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

### **YR ATODLEN**

Y darn o brif gerbyttfordd a ffyrdd ymuno ac ymadael cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd i ffin Cymru/Lloegr i'r dwyrain o Gyffordd 36a (Brychdyn), Sir y Fflint.

Y darn o brif gerbyttfordd a ffyrdd ymuno ac ymadael cefnffordd yr A494/A550 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 34 yr A55 (Cyfnewidfa Ewlo) i ffin Cymru/Lloegr i'r gogledd-ddwyrain o Bont Afon Dyfrdwy, Queensferry, Sir y Fflint.

### **SCHEDULE**

The length of the main carriageway and slip roads of the A55 trunk road that extends from a point 800 metres west of the centre-point of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Gwynedd to the Wales/England border, east of Junction 36a (Broughton), Flintshire.

The length of the main carriageway and slip roads of the A494/A550 trunk road that extends from the centre-point of the A55 Junction 34 (Ewloe Interchange) to the Wales/England border, north-east of the River Dee Bridge, Queensferry, Flintshire.